Y Comisiwn Etholiadol

Etholiadau cynghorau cymuned yng Nghymru

Canllawiau i ymgeiswyr

Rhan 4 o 6 – Yr ymgyrch

Chwefror 2023

Dim ond i etholiadau cynghorau cymuned y mae'r ddogfen hon yn gymwys. Nid yw'n gymwys i etholiadau cynghorau sirol nac etholiadau bwrdeistrefi sirol. Gellir gweld ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer pob etholiad lleol yng Nghymru ar ein gwefan yn https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant

Cynnwys

Yr ymgyrch 4
Yr hyn y gellir ac na ellir ei wneud mewn ymgyrch 5
Pryd y gallwch ddechrau ymgyrchu? 5
Pryd y bydd rhywun yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol? ... 5
Yn ystod yr ymgyrch, cewch... 6
Yn ystod yr ymgyrch, dylech 7
Yn ystod yr ymgyrch, rhaid i chi sicrhau nad ydych yn... 8
Defnyddio'r gofrestr etholiadol a rhestrau pleidleiswyr absennol 9
Cyfyngiadau ar ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol 9
Gwneud cais am gopi o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol 10
Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus 10
Yr hyn y gellir ac na ellir ei wneud o ran cyhoeddusrwydd wrth ymgyrchu 11
Defnyddio argraffnodau 12
Beth yw argraffnod? 12
Yr hyn y gellir ac na ellir ei wneud ar y diwrnod pleidleisio 13
Cynnal uniondeb yr etholiad 14
Rhestr o droseddau 14
Llwgrwobrwyo 14
Tretio 15
Dylanwad gormodol 15
Cambersonadu 15
Datganiadau ffug 16
Ynghylch cymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd 16
Gwybodaeth gofrestru ffug a chais ffug i bleidleisio drwy'r post/drwy ddirprwy 16
Cais ffug am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy 16
Troseddau'n gysylltiedig ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy 17

Torri'r gofynion o ran cyfrinachedd y bleidlais 17
Deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch..... 17
Casineb hiliol..... 17
Rhoi gwybod am honiadau o dwyll etholiadol 18
Beth os ydych wedi gwneud camgymeriad? 19

4

Yr ymgyrch

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ein canllawiau ar ymgyrchu mewn etholiadau cynghorau cymuned.

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio ‘chi’ i gyfeirio at yr ymgeisydd. Rydym yn defnyddio ‘rhaid’ wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio ‘dylai’ ar gyfer eitemau sy'n arferion da sylfaenol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol na rheoleiddiol.

Mae'r dyddiadau cau y sonnir amdanynt yn y ddogfen hon yn rhai cyffredinol. Rydym wedi cyhoeddi amserlen gyffredinol ar gyfer etholiadau ar ein gwefan. Unwaith y caiff etholiad ei alw, byddwch yn gallu cael copi o'r amserlen benodol ar gyfer yr etholiad hwnnw gan y Swyddog Canlyniadau.

Ar gyfer etholiadau a drefnwyd, byddwn yn cyhoeddi amserlen etholiadau, y gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â'ch tîm Comisiwn lleol os oes gennych unrhyw gwestiynau. Gweler ein dogfen Trosolwg am fanylion cyswllt.

Mae deddfwriaeth diogelu data ddiwygiedig yn gymwys i brosesu pob math o ddata personol.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r ddeddfwriaeth diogelu data bresennol yn effeithio arnoch chi.

Yr hyn y gellir ac na ellir ei wneud mewn ymgyrch

Pryd y gallwch ddechrau ymgyrchu?

1.1 Cewch ddechrau ymgyrchu unrhyw bryd. Nid oes rhaid i chi aros am enwebiad dilys er mwyn datgan eich bod am sefyll etholiad, gofyn i bobl eich cefnogi neu gyhoeddi deunydd ymgyrchu.

1.2 Mae terfynau gwariant etholiadol yn gymwys o'r diwrnod ar ôl y dyddiad y daw rhywun yn ymgeisydd yn swyddogol. I gael rhagor o wybodaeth am wariant etholiadol, gweler ein nodiadau canllaw ar wariant ymgeisydd mewn etholiadau cynghorau cymuned

Pryd y bydd rhywun yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol?

1.3 Y dyddiad cynharaf y gallwch ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o etholiad, sef y 25ain diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

1.4 Byddwch yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol ar y diwrnod hwn os byddwch eisoes wedi datgan eich bod yn ymgeisydd yn yr etholiad (neu os bydd rhywun arall wedi datgan eich bod yn ymgeisydd) ar neu cyn y dyddiad hwn.

1.5 Os byddwch chi neu eraill yn datgan y byddwch yn ymgeisydd yn yr etholiad ar ôl y dyddiad hwn, byddwch yn dod yn ymgeisydd ar y dyddiad y gwneir y cyfryw ddatganiad, neu ar y dyddiad y cyflwynwch eich papurau enwebu, p'un bynnag fydd gyntaf.

1.6 Pan fyddwch wedi dod yn ymgeisydd yn swyddogol, cewch gopi o'r gofrestr etholiadol.[1] Mae gennych hefyd hawl i gael copi o'r rhestrau pleidleiswyr absennol ar gyfer y gymuned

neu, os yw'r gymuned yn cynnwys wardiau, y ward rydych yn sefyll ynddi. Hefyd, gallwch ddefnyddio ystafelloedd a ariennir gan gyllid cyhoeddus ac ysgolion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus (gweler y paragraff **1.19** isod).

Yn ystod yr ymgyrch, cewch...

- Annog pobl nad ydynt ar y gofrestr etholiadol i wneud cais i gofrestru. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio mewn da bryd ar gyfer etholiad yw 12 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.[2] Gall unigolion gofrestru ar-lein yn https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio. Ceir rhagor o wybodaeth am bwy all gofrestru ar ein gwefan https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr

- Helpu pleidleiswyr gyda gwybodaeth am bleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy – mae gwybodaeth ar gael ar ein gwefan yn https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost yn yr etholiadau yw 5pm ar yr unfed diwrnod gwaith ar ddeg cyn yr etholiad.[3] Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy yn yr etholiadau yw 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn yr etholiad.[4] Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy yn yr etholiad yw 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn yr etholiad, er mewn rhai amgylchiadau gall etholwyr wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio.[5] Gall etholwr wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng os ydyw, ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn yr etholiad, wedi cael argyfwng meddygol neu wedi'i alw i ffwrdd ar fusnes.

Dylai ceisiadau cofrestru neu bleidleisio absennol wedi'u cwblhau a roddir i chi neu'ch ymgyrchwyr gael eu hanfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol o fewn dau ddiwrnod gwaith i'w derbyn.

Yn ystod yr ymgyrch, dylech...

- Os ydych yn datblygu eich ffurflenni cais eich hun, sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, neu caiff y ceisiadau eu gwrthod. Yn arbennig, rhaid i chi sicrhau bod y meysydd llofnod a dyddiad geni ar ffurflenni cais pleidleisiau post a phleidleisiau drwy ddirprwy yn y fformat cywir. Dylech ddefnyddio ein ffurflenni cais pleidleisio absennol sydd ar ein gwefan https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr fel canllaw. Dylech gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol a all roi ffurflenni i chi eu defnyddio efallai.
- Sicrhau bod eich cefnogwyr yn dilyn y Cod ymddygiad ar gyfer ymgyrchwyr ym Mhrydain Fawr – bydd hyn yn eu helpu i osgoi sefyllfaoedd lle y gallai eu gonestrwydd neu eu huniondeb gael ei gwestiynu.
- Sicrhau bod eich cefnogwyr yn gwrtais wrth ddelio ag ymgeiswyr eraill a'u cefnogwyr.
- Bod yn ymwybodol o'r dyddiadau cau ar gyfer penodi asiantiaid i fynychu achlysuron agor amlenni pleidleisiau post, gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrif. Nodir dyddiadau cau yn ein dogfennau canllaw Rhan 2a – Sefyll fel ymgeisydd annibynnol a Rhan 2b – Sefyll fel ymgeisydd plaid
- Darllen ein canllawiau ar achlysuron agor amlenni pleidleisiau post, y broses bleidleisio a'r cyfrif fel eich bod yn gwybod beth y gallwch ei ddisgwyl a phryd, gweler rhan 5 – Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol)
- Sicrhau bod eich systemau ar gyfer cofnodi gwariant yn gweithio. I gael rhagor o wybodaeth am wariant etholiadol, gweler ein nodiadau canllaw ar wariant ymgeisydd mewn etholiadau cynghorau cymuned.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ar y ffordd y mae cyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol yn effeithio ar ymgyrchu etholiadol. Mae copi o'r canllawiau hyn ar gael yma: https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/equality-and-human-rights-law-during-election-period-guidance-local-authorities

Yn ystod yr ymgyrch, rhaid i chi sicrhau nad ydych yn...

- Gwneud datganiad ffug am gymeriad personol ymgeisydd arall yn fwriadol.[6]

- Talu canfaswyr.[7] Ystyr canfasio yw ceisio darbwyllo etholwr i bleidleisio dros neu yn erbyn ymgeisydd neu blaid benodol.

1.7 Rhoddir rhagor o wybodaeth am droseddau mewn etholiad a sut i roi gwybod amdanynt yn ddiweddarach yn y ddogfen hon (o baragraff **1.340**).

1.8 Os byddwch wedi gwneud camgymeriad ac wedi torri'r rheolau, gallwch wneud cais am ryddhad rhag canlyniadau gwneud camgymeriad. Gweler paragraff **1.57** am ragor o wybodaeth.

Defnyddio'r gofrestr etholiadol a rhestrau pleidleiswyr absennol

1.9 Pan fyddwch wedi dod yn ymgeisydd yn swyddogol, fel yr eglurir ym mharagraffau **1.3** i **1.5**, cewch gopi o'r gofrestr etholiadol am ddim.[8] Mae gennych hefyd hawl i gael copi o'r rhestrau o'r bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy ('y rhestrau pleidleiswyr absennol') ar gyfer y gymuned neu, os yw eich cymuned yn cynnwys wardiau, y ward rydych yn ymladd ynddi.

Cyfyngiadau ar ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol

1.10 Mae'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol yn cynnwys data personol pobl ac felly rheolir eu defnydd yn ofalus iawn.

1.11 Gallwch eu defnyddio i:

- gwblhau eich ffurflen enwebu
- eich helpu i ymgyrchu
- cadarnhau bod rhoddion yn rhai a ganiateir

1.12 Ni ddylech roi unrhyw fanylion sydd ond yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol ac nid ar y gofrestr agored, sydd ar werth yn gyffredinol, i neb. Ni ddylech ddefnyddio'r gofrestr etholiadol na'r rhestrau pleidleiswyr absennol at unrhyw ddiben arall nad yw wedi'i restru uchod.[9]

1.13 Os byddwch wedi rhoi copi o'r gofrestr etholiadol neu'r rhestrau pleidleiswyr absennol i weithwyr ymgyrch, rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â'r gofynion uchod.

Mae dau fath o gofrestr. Pam?
Gan ddefnyddio gwybodaeth gan y cyhoedd, mae swyddogion cofrestru yn cadw dwy gofrestr – y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored (a elwir hefyd yn gofrestr olygedig).

Mae'r **gofrestr etholiadol** yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus. Defnyddir y gofrestr at ddibenion etholiadol, fel sicrhau mai dim ond pobl gymwys a all bleidleisio. Fe'i defnyddir hefyd at ddibenion cyfyngedig eraill a nodir yn y gyfraith, fel canfod trosedd (e.e. twyll), galw pobl i wasanaeth rheithgor, gwirio ceisiadau am gredyd.

Y gofrestr agored
Mae'r gofrestr agored yn rhan o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei defnyddio ar gyfer etholiadau. Gall unrhyw berson, cwmni neu sefydliad ei phrynu. Er enghraifft, caiff ei defnyddio gan fusnesau ac elusennau er mwyn cadarnhau enwau a chyfeiriadau. Gall etholwyr ofyn i'w henw a'u cyfeiriad beidio â chael eu cynnwys ar y gofrestr agored.

1.14 Rhaid i chi sicrhau eich bod yn cadw'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol yn ddiogel.[10] Pan na fydd angen y gofrestr na'r rhestrau pleidleiswyr absennol arnoch mwyach at ddibenion etholiadol, dylech ddinistrio unrhyw gopïau a roddwyd i chi fel ymgeisydd yn ddiogel yn unol â chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Gwneud cais am gopi o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol

Caiff pleidiau gwleidyddol cofrestredig gopi o'r gofrestr etholiadol lawn ar unrhyw adeg.

1.15 Gellir cael copïau o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Gallwch ddod o hyd i'w fanylion cyswllt ar ein gwefan https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr.

1.16 Rhaid i'r cais gael ei wneud yn ysgrifenedig[11] ac rydym wedi darparu ffurflen cais am gofrestr a ffurflen cais am restrau pleidleiswyr absennol at y diben hwn ar ein gwefan.

Gallai unrhyw un sy'n torri'r cyfyngiadau ar ddefnyddio'r gofrestr etholiadol wynebu dirwy anghyfyngedig.

1.17 Darperir y gofrestr a'r rhestrau ar ffurf electronig oni fyddwch yn gofyn am gopi papur yn benodol.

1.18 Bydd y fersiwn o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau a ddarperir yn gyfredol ar adeg eich cais. Gallwch hefyd wneud cais am ddiweddariadau i'r cofrestrau etholiadol a'r rhestrau a gyhoeddir yn y cyfnod cyn yr etholiad, gan gynnwys y rhestr o etholwyr sydd newydd gofrestru pan gaiff ei chyhoeddi bum diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus

Nid yw hawl ymgeiswyr i ddefnyddio ystafelloedd yn cynnwys yr oriau y defnyddir ysgol at ddibenion addysgol. Yn yr un modd, rhaid rhoi blaenoriaeth i unrhyw achos lle roedd ystafell gyfarfod wedi'i llogi ymlaen llaw.

1.19 Efallai y byddwch am ymgysylltu â'r cyhoedd mewn cyfarfodydd cyhoeddus, gan hyrwyddo eich syniadau ac ateb cwestiynau gan y gynulleidfa.

1.20 Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cadw rhestr o leoliad ac argaeledd ystafelloedd cyfarfod yn ei ardal. Bydd y rhestr hon ar gael i ymgeiswyr a phobl a awdurdodir ganddynt o'r diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad o etholiad. Pan fyddwch yn ymgeisydd, fel yr eglurir ym mharagraffau **1.3** i **1.5**, cewch ddefnyddio ystafelloedd cyhoeddus hyd at y diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio.[12] Ceir manylion cyswllt Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar ein gwefan https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr.

1.21 Dylech gysylltu â pherchennog y safle i drefnu ystafell, gan roi rhybudd rhesymol er mwyn lleihau'r risg y caiff y cais ei wrthod.

1.22 Ni chodir tâl am ddefnyddio'r ystafelloedd hyn, ond rhaid i chi dalu am unrhyw gostau yr eir iddynt, megis gwres, golau a glanhau, ac am unrhyw ddifrod i'r eiddo.

Yr hyn y gellir ac na ellir ei wneud o ran cyhoeddusrwydd wrth ymgyrchu

1.23 Rhaid i chi wneud y canlynol:

- Defnyddio argraffnodau ar eich holl ddeunydd ymgyrchu argraffedig ac unrhyw ddeunydd ymgyrchu electronig a ddylunnir i'w argraffu'n lleol.[13] Dylech sicrhau bod yr argraffnod yn glir ac yn weladwy. Gweler paragraff **1.26** isod am ragor o wybodaeth.
- Cydymffurfio â rheolau cynllunio sy'n ymwneud â byrddau hysbysebu a baneri mawr[14] – dylech ofyn i'r awdurdod lleol am gyngor.
- Sicrhau bod posteri awyr agored yn cael eu tynnu i lawr yn ddi-oed ar ôl yr etholiad – rhaid i chi wneud hyn o fewn pythefnos i'r etholiad.

1.24 Dylech wneud y canlynol:

- Cynnwys argraffnod ar unrhyw ddeunydd ymgyrchu nas argreffir, gan gynnwys gwefannau.
  Ystyried sut i wneud eich ymgyrch yn hygyrch i bobl sydd â nam ar eu golwg, anawsterau dysgu neu sgiliau llythrennedd isel, neu os nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Gallech gysylltu â grwpiau anabledd yn eich ardal leol am gyngor.

1.25 Rhaid i chi beidio â gwneud y canlynol:

- Cynhyrchu deunydd sy'n edrych fel y cardiau pleidleisio a anfonir at bleidleiswyr gan y Swyddog Canlyniadau.[15]
- Talu pobl i arddangos eich hysbysebion (oni fyddant yn arddangos hysbysebion fel rhan o'u busnes arferol).[16]

Defnyddio argraffnodau

Beth yw argraffnod?

1.26 Dylid ychwanegu argraffnod at unrhyw ddeunydd ymgyrchu ac, yn achos deunydd argraffedig, rhaid gwneud hynny yn ôl y gyfraith, er mwyn dangos pwy sy'n gyfrifol am ei lunio.[17] Mae'n helpu i sicrhau bod yr ymgyrch yn dryloyw. Dylech sicrhau bod eich argraffnod yn glir ac yn weladwy.

1.27 Mae'r daflen wybodaeth ar Argraffnodau ymgeiswyr yn esbonio'r rheolau y mae rhaid i chi eu dilyn os ydych yn ymgeisydd yn y math hwn o etholiad arall.

Yr hyn y gellir ac na ellir ei wneud ar y diwrnod pleidleisio

1.28 Dylech wneud y canlynol:

- Sicrhau bod unrhyw rifwyr sy'n gweithio i chi yn dilyn ein canllawiau i rifwyr ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau.
- Sicrhau bod eich ymgyrchwyr yn dilyn y Cod ymddygiad i ymgyrchwyr ym Mhrydain Fawr sy'n nodi'r hyn a gaiff, a'r hyn na chaiff, ei ystyried yn ymddygiad derbyniol mewn gorsafoedd pleidleisio ac yn y gymuned.
- Cydymffurfio â cheisiadau gan staff gorsafoedd pleidleisio neu'r Swyddog Canlyniadau ynghylch ymgyrchu ger gorsafoedd pleidleisio. Fodd bynnag, dylai fod hawl gennych i gyflwyno eich neges i bleidleiswyr ar y diwrnod pleidleisio, gan gynnwys mewn mannau cyhoeddus y tu allan i fannau pleidleisio.
- Sicrhau bod unrhyw asiantiaid sy'n bresennol mewn gorsafoedd pleidleisio, achlysuron agor amlenni pleidleisiau post neu'r cyfrif yn deall y rheolau ynghylch cyfrinachedd y bleidlais. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein dogfennau sy'n nodi'r gofynion cyfrinachedd ar gyfer yr etholiad, pleidleisio drwy'r post a'r cyfrif.

Gwirfoddolwyr ymgeiswyr yw rhifwyr, sy'n sefyll y tu allan i orsafoedd pleidleisio ac yn cofnodi nifer yr etholwyr sydd wedi pleidleisio.

1.29 Rhaid i chi beidio â gwneud y canlynol:

- Ymgyrchu ger gorsafoedd pleidleisio mewn ffordd a allai gael ei hystyried yn ymosodol gan bleidleiswyr neu a allai godi ofn arnynt (er enghraifft, grwpiau mawr o gefnogwyr yn cario baneri, neu gerbydau ag uchelseinyddion neu â deunydd ymgyrchu drostynt i gyd).
- Torri'r gofynion o ran cyfrinachedd y bleidlais.[18] Mae hyn yn rhan hanfodol o unrhyw ddemocratiaeth fodern ac ymdrinnir ag unrhyw fethiant yn ddifrifol.
- Yn arbennig, os byddwch chi (neu eich asiantiaid) yn mynychu achlysuron agor amlenni pleidleisiau post, ni chewch geisio nodi na dangos sut y marciwyd pleidleisiau ar bapurau pleidleisio unigol.

- Cyn diwedd y cyfnod pleidleisio, cyhoeddi arolygon barn wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio nac unrhyw ddata eraill yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd gan bobl am y ffordd y gwnaethant bleidleisio ar ôl iddynt fwrw eu pleidlais, gan gynnwys pleidlais bost.[19]

Cynnal uniondeb yr etholiad

1.30 Fel ymgeisydd, chi fydd un o brif wynebau cyhoeddus yr etholiad, a bydd eich gwrthwynebwyr, y cyfryngau a phleidleiswyr yn craffu ar eich ymddygiad yn ofalus. Dylai pleidleiswyr allu ymddiried ynoch i gydymffurfio â'r gyfraith a chynnal uniondeb y broses etholiadol.

1.31 Mae'r sawl sy'n gweithredu fel eich asiant etholiad yn gyfrifol am eich ymgyrch ac, yn arbennig, mae'n gyfrifol am ei rheolaeth ariannol yn gyfreithiol.

1.32 Dylech hefyd sicrhau bod eich cefnogwyr yn deall y gyfraith yn llawn ac yn gwybod beth i'w wneud i sicrhau y gall pleidleiswyr fwrw pleidlais heb unrhyw rwystr.

1.33 Dim ond os oes tystiolaeth o drosedd y gall yr heddlu ymchwilio i honiadau o dwyll etholiadol, felly dylech fod yn gallu ategu unrhyw honiadau pan fyddwch yn eu hatgyfeirio at yr heddlu. Dylech hefyd ystyried yr effaith ar hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd os gwneir honiadau anwir neu ddisylwedd ynghylch ymddygiad ymgyrchwyr eraill.

Nid yw'r Swyddog Canlyniadau na'r Comisiwn yn rheoleiddio'r troseddau hyn.

I gael manylion am sut i roi gwybod am unrhyw honiadau o dwyll etholiadol gweler paragraff **1.51**.

Rhestr o droseddau

1.34 Dylech fod yn ymwybodol o nifer o droseddau etholiadol a throseddau nad ydynt yn rhai etholiadol, a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun lle bo angen.

Llwgrwobrwyo[20]

1.35 Mae'r drosedd o lwgrwobrwyo yn cynnwys, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, roi unrhyw arian neu sicrhau unrhyw swydd ar gyfer unrhyw bleidleisiwr neu ar ei

ran, er mwyn ysgogi unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio.

Tretio[21]

1.36 Mae unigolyn yn euog o dretio os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl etholiad, yn rhoi neu'n darparu unrhyw fwyd, diod, adloniant neu ddarpariaeth er mwyn dylanwadu'n llygredig ar unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio. Mae a wnelo tretio â bwriad llygredig – nid yw'n gymwys i letygarwch arferol.

Dylanwad gormodol[22]

1.37 Mae unigolyn yn euog o gael dylanwad gormodol os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio grym, trais neu ataliaeth, neu achosi neu fygwth achosi anaf, difrod neu niwed er mwyn gorfodi neu gymell yr unigolyn hwnnw i bleidleisio neu beidio â phleidleisio.

1.38 Gall unigolyn hefyd fod yn euog o gael dylanwad gormodol os bydd yn rhwystro neu'n atal pleidleisiwr rhag arfer ei hawl i bleidleisio – hyd yn oed os na fydd yn llwyddo.

1.39 Nid yw dylanwad gormodol yn ymwneud â mynediad ffisegol i'r orsaf bleidleisio yn unig. Er enghraifft, gallai taflen sy'n bygwth defnyddio grym er mwyn cymell pleidleisiwr i bleidleisio mewn ffordd benodol hefyd fod yn ddylanwad gormodol.

Cambersonadu[23]

1.40 Ystyr cambersonadu yw pan fydd unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall, naill ai drwy'r post neu'n bersonol yn yr orsaf bleidleisio, fel etholwr neu ddirprwy. Mae'r drosedd hon yn gymwys p'un a yw'r person a gaiff ei gambersonadu yn fyw, yn farw neu'n ffuglennol. Mae hefyd yn drosedd cynorthwyo, annog neu gaffael cambersonadu.

Datganiadau ffug

Ynghylch cymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd[24]

1.41 Mae'n drosedd gwneud neu gyhoeddi datganiad ffeithiau ffug am gymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd er mwyn effeithio ar ethol ymgeisydd mewn etholiad.

1.42 Nid yw datganiadau ffug nad ydynt yn ymwneud â chymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd yn anghyfreithlon o dan gyfraith etholiadol, ond gellid eu hystyried yn enllibus neu'n athrodus.

1.43 Mae hefyd yn anghyfreithlon gwneud datganiad ffug bod ymgeisydd yn tynnu ei enw'n ôl er mwyn hyrwyddo neu gaffael ethol ymgeisydd arall.

Mewn papurau enwebu[25]

1.44 Mae'n drosedd gwneud datganiad ar bapur enwebu y gwyddoch ei fod yn ffug. Er enghraifft, os ydych yn gwybod eich bod wedi eich anghymhwyso rhag sefyll etholiad, ni ddylech lofnodi'r ffurflen cydsynio ag enwebiad

Gwybodaeth gofrestru ffug a chais ffug i bleidleisio drwy'r post/drwy ddirprwy[26]

1.45 Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth ffug ar ffurflen gais cofrestru, pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy. Mae gwybodaeth ffug yn cynnwys llofnod ffug.

Cais ffug am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy[27]

1.46 Bydd unigolyn yn euog o drosedd os bydd yn gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy er mwyn cael pleidlais nad oes ganddo'r hawl i'w chael neu er mwyn atal rhywun arall rhag pleidleisio.

Troseddau'n gysylltiedig ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy[28]

1.47 Ceir amryw droseddau o ran aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy, gan gynnwys unigolyn yn pleidleisio drwy'r post fel etholwr neu ddirprwy pan fo wedi'i anghymhwyso yn ôl y gyfraith rhag pleidleisio a chymell neu gaffael rhywun arall i gyflawni'r drosedd.

Torri'r gofynion o ran cyfrinachedd y bleidlais[29]

1.48 Rhaid i bawb sy'n gysylltiedig â'r broses etholiadol neu sy'n mynychu rhai digwyddiadau gynnal cyfrinachedd y bleidlais. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi copi o'r gofynion swyddogol o ran cyfrinachedd i bawb sy'n mynychu achlysur agor amlenni pleidleisiau post neu gyfrif papurau pleidleisio, ac i asiantiaid pleidleisio.

Deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch

1.49 Mae rhai troseddau'n ymwneud yn benodol â deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch etholiadol. Rhaid i ddeunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch etholiadol argraffedig gynnwys argraffnod[30] a pheidio ag edrych fel cerdyn pleidleisio.[31] Rhaid i ddeunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch beidio â chynnwys datganiad ffug ynghylch cymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd arall ychwaith.[32]

Nid yw'r Swyddog Canlyniadau na'r Comisiwn yn rheoleiddio cynnwys deunydd ymgyrchu ac ni allant wneud unrhyw sylwadau am gyfreithlondeb unrhyw ddeunydd etholiadol penodol y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y canllawiau hyn.

Casineb hiliol

1.50 O dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986, mae'n drosedd cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd bygythiol, ymosodol neu sarhaus y bwriedir iddo ysgogi casineb hiliol neu sy'n debygol o wneud hynny.

18

Rhoi gwybod am honiadau o dwyll etholiadol

1.51 Os byddwch yn poeni am dwyll etholiadol, dylech siarad yn gyntaf â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol neu'r Swyddog Canlyniadau.

1.52 Efallai y bydd yn gallu egluro p'un a gyflawnwyd twyll etholiadol ai peidio, a gall gyfeirio eich pryderon i'r heddlu os oes angen. Gall hefyd roi manylion swyddog cyswllt yr heddlu ar gyfer yr heddlu perthnasol fel y gallwch roi gwybod am yr honiad eich hun.

1.53 Os bydd gennych dystiolaeth bod trosedd etholiadol wedi'i chyflawni, dylech gysylltu â'r heddlu **ar unwaith**, gan ddefnyddio'r rhif 101 ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys oni fydd trosedd yn cael ei chyflawni yn y fan a'r lle, pan ddylech ffonio'r llinell frys safonol **999**. Mae gan bob heddlu Swyddog Cyswllt Unigol penodol a fydd yn gallu rhoi cyngor er mwyn sicrhau yr ymchwilir i'ch honiadau'n gywir. Dylech fod yn barod i roi datganiad iddo ac ategu eich honiad.

1.54 Os nad ydych am roi datganiad i'r heddlu, gallwch leisio eich pryderon yn ddienw ar wefan Crimestoppers neu drwy ffonio Crimestoppers ar 0800 555 111.

1.55 Mae manylion cyswllt Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau ar ein gwefan https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr.

1.56 Noder, os bydd eich honiad yn ymwneud â materion cyllid ymgyrchydd plaid, etholiadol neu gofrestredig, fel gwariant, yna dylech ddilyn y cyngor a roddir yn: https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/gorfodi/gwneud-honiad

Beth os ydych wedi gwneud camgymeriad?

1.57 Os byddwch chi, neu'ch asiant, wedi gwneud camgymeriad ac wedi torri'r rheolau etholiadol, gallwch wneud cais am ryddhad rhag cosbau unrhyw drosedd.

1.58 Dylech bob amser geisio cyngor cyfreithiol os byddwch yn ystyried gwneud cais am ryddhad.

1.59 I gael rhagor o wybodaeth, dylech:

- ymweld â gwefan www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder a nodi rhif y ffurflen LOC002, neu
- gysylltu â

  The Election Petitions Office
  Room E113
  Royal Courts of Justice
  Strand
  London WC2A 2LL

  E-bost: Election_Petitions@hmcts.gsi.gov.uk
  Ffôn: 0207 947 6877

[1] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001), rheoliad 108
[2] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 83), adran 13B(1)-(3) a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, rheoliad 29(4)
[3] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, rheoliad 56
[4] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, rheoliad 56
[5] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, rheoliad 56
[6] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, rheoliad 56(3B)
[7] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 106
[8] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 111
[9] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, rheoliad 108
[10] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, rheoliadau 61 a 102
[11] Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig 2018, erthygl 5
[12] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, rheoliadau 61 a 102
[13] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 96
[14] Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, adran 143 a Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 110
[15] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992
[16] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 94
[17] Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, adran 143 a Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 110
[18] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 66
[19] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 66A
[20] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 113
[21] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 114
[22] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 115
[23] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 60
[24] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 106
[25] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 65A
[26] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 13D
[27] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 62A
[28] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 61
[29] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 66
[30] Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, adran 143 a Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 110
[31] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 94
[32] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 106